# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 6ed o Orffennaf 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans (Is-gadeirydd), Margaret Griffith, Aled Davies, Rhys Tudur, Angela Williams, Delyth Parry, Tegid Jones, Miriam Williams, Gareth O. Davies, Dylan Thomas, Euros Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Anwen Jones, Darren Morley a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 8fed o Fehefin 2023.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mehefin 2023 (Cadeirydd yn ei llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol - neb.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Gorffennaf 2023**
a) Cynnal Tiroedd ychwanegol mewn ardaloedd 30/40 yn ystod mis Gorffennaf, fel rhan o'r ymdrech i baratoi'r ardal cyn yr Eisteddfod.

**Rhybuddion gan Adran Trafnidiaeth**

b) **Cau Ffordd Dosbarth III yn Garndolbenmaen ger PROW Llanystumdwy** Rhif 62 hyd at Cefn Uchaf, Garndolbenmaen– gwaith BT Openreach ar 13.07.2023.

c) **Cau'r Ffordd o gyffordd ger Y Bwthyn heibio Gorswen i groesffordd ger Bryn Llefrith Uchaf, Llangybi** – gwaith adfer polion a cheblau ar ran BT Openreach ar 03.08.2023.

ch) **Cau Ffordd Dosbarth III yn Llangybi ger PROW Llanystumdwy** Rhif 70, rhwng Capel Pencoed i Cefn, Llangybi - gwaith adfer polyn ddiffygiol a cheblau ar ran BT Openreach ar 10.08.2023.

d) **Cau Ffordd Dosbarth III yn Llangybi ger PROW Llanystumdwy** Rhif 10 – rhwng Bronallt i Tan y Fron, Llangybi - gwaith adfer polyn ddiffygiol a cheblau ar ran BT Openreach ar 07.08.2023.

dd) **Cau'r Ffordd o A497 cylchfan Afonwen i'r de i'r rheilffordd, Afonwen**
Y Clerc wedi anfon ebost i holi os yw'n beth doeth i gau y lonydd yn ystod yr Eisteddfod i wneud y gwaith uchod.

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**
**a) Cais Cynllunio: Rhif Cais: C23/0464/41/LL - Pen Y Bryn, Chwilog – Creu pwll piswail – Cefnogi.**

**b) Cais Cynllunio : C23/0467/41/LL - Pen Y Bryn, Chwilog, - Storfa Silwair - Cefnogi.**

c) **Apêl rhif: CAS-02417-X3N9F8 - Tir ger Coedwig Coed Mawr, Cricieth, LL52 0ND**

**Defnyddio tir ar gyfer gwersylla / glampio amgen parhaol (9 pod) (Ailgyflwyniad o gais C20/0348/35/LL)** – derbyniwyd gwybodaeth gan Adran Cynllunio fod apêl wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru parthed y safle uchod.
Mae'r holl sylwadau a gyflwynwyd eisioes ar y cais yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru a chopi at yr apelydd wrth ystyried yr apêl.
Mae'r Adran Cynllunio yn gofyn os ydi'r Cyngor Cymuned eisiau newid/tynnu'n nol neu ymhelaethu ar y sylwadau roddwyd yn flaenorol ac mae angen gwneud hynny cyn **10.07.2023**.
Dyma roddwyd fel sylwadau iddynt drwy lythyr ar 10.12.2021:-
"Gwrthwynebu ar sail fod y fynedfa ar dro peryglus, gweledia sal, a thyfiant coed yn broblem yno. Hefyd fod yr arolwg wedi cael ei wneud ym mis Hydref, ac nid yn ystod prysurdeb yr haf". **Angen ychwanegu sylwadau fod gormodedd o safleoedd tebyg yn yr ardal, a bod y bont yn cael ei tharo'n reolaidd yn ystod y flwyddyn, felly nid yw'r safle yn briodol o gwbl.**

8. **Addurno ffyrdd ar gyfer Eisteddfod Llyn ac Eifionydd 2023**
Mae sawl cyfarfod wedi bod yn y pentrefi i drefnu harddu'r ardal, drwy osod baneri, arwyddion, ac ati ar ddarnau o'r briffordd. **Bydd baneri a 'bynting' gafodd ei archebu ddechrau'r flwyddyn yn cael ei rhannu yn ystod y dyddiau nesaf ymysg yr ardaloedd.**

9. **Rheolau Sefydlog Newydd 2023** – cafwyd cyfarfod am 6:30 o flaen y prif gyfarfod i'r Cynghorwyr Margaret Griffith, Angela Williams a'r Clerc, nid oedd Rhys Tudur wedi medru bod yn bresennol. Diolchwyd i'r Cynghorydd Margaret Griffith am fynd drwy'r Rheolau newydd mor fanwl, a gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Un Llais Cymru yn datgan anfodlonrwydd hefo'r Model yr oeddent wedi ei anfon oherwydd ei defnydd o'r wyddor Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. **Bydd y Clerc yn ei cyflwyno i'w mabwysiadu yng nghyfarfod mis Medi 2023.**

**Materion yn y gymuned**.

10. **Llanystumdwy**

**Pont bren ar draws afon Llanystumdwy yn simsan** - Clerc wedi derbyn ebost gan aelod o'r cyhoedd, ac wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i'w hysbysu. **Derbyn**.

11. **Rhoslan/Ynys**

**Pont Rhydybenllig** - wedi cael ei tharo eto, ac mae un garreg fawr wedi mynd lawr i'r cae a llawer o gerrig eraill wedi symud o'i lle. Clerc eisioes wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, a dywedwyd fod cerbyd arall wedi taro'r bont eto ddechrau'r wythnos.

12. **Chwilog**

**a) Problemau parcio yn Chwilog**
Wedi anfon ebost at Cyngor Gwynedd ar y cyd â'r Cynghorydd Rhys Tudur yn egluro fod traferthion gyda pharcio a thraffic ger Ysgol Chwilog. Gofynnwyd os y byddai'n bosib trefnu cyfarfod safle yn ystod y prynhawn pan fo rhieni yn nol plant o'r ysgol .
**Derbyniwyd ateb gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig, yn dweud bydd yna gyfle i drafod y materion pryderus yma mewn cyfarfod safle oedd yn mynd i gael ei drefnu yn cynnwys Iwan Ap Trefor, Eurun Owen a'r Cynghorydd Rhys Tudur ar 10.07.2023.**

b) **<u>Cais i roi linellau melyn yn Chwilog ger Lon y Plas</u>**
Derbyniwyd ebost gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig, yn dweud ei fod wedi gofyn wrth un o'r swyddogion i arolygu'r safle i ddarganfod sgôp y cynllun arfaethedig cyn bwrw ymlaen gyda'r ochr ymgynghoriad cyhoeddus ac yna'r rhaglen gyfreithiol.
Yna bydd y swyddog yn rhannu beth fydd barn yr uned ar y cynllun a'r ffordd mwyaf effeithiol a buddiol iddynt fwrw ymlaen gyda unrhyw welliannau.

c) **<u>Gerddi Madryn cais am gael llinnellau melyn ar y lon fawr.</u>** Wrth droi i'r lon fawr o Gerddi Madryn mae'n anodd iawn gweld os yw'n saff i ddod i'r lon oherwydd fod cerbydau yn parcio ar y ddwy ochr. Pryder y bydd damwain yno. **<u>Clerc i holi eto, a bod y mater yma wedi cael ei drafod rai misoedd yn nol yn dilyn derbyn gohebiaeth gan Cyngor Gwynedd.</u>**

ch) **<u>Garej Pandy- safle gwerthu carafanau Evans.</u>**
Cwynion fod llawer o gerbydau a charafanau yn parcio o flaen y lle, ac yn y 'layby' ar draws y lon drwy'r dydd.
Derbyniwyd ateb gan Andrew Gregson, Uwch Beirianydd Traffig, yn egluro fod gan y gwasanaeth fwriad i osod 'bolardiau' yno, ond nad oeddent yn fodlon gwneud hynny heb gydweithrediad y perchnogion. Maent wedi ceisio trafod y mater gyda'r perchennog. Dywedodd fod parcio ar y llwybr yn drosedd, ond nid oes gan y Cyngor yr hawl i'w gorfodi. Mae'r pwerau hynny gan yr Heddlu, ac maent am ofyn am gymorth gan yr Heddlu i ddelio hefo'r mater. **<u>Gofynwyd i'r Clerc anfon ebost yn cefnogi'r hyn yr oedd y Cynghorydd Rhys Tudur yn ei ddweud, sef er fod anhawsterau rhwng y perchnogion a'r Cyngor, mae perygl i hynny osod cynsail iddynt gael gwneud fel y mynent, felly dylid parhau i roi 'bolardiau neu linellau ar y safle' i ddiogelu'r cyhoedd.</u>**

d) **<u>Ty'n Lon, Chwilog</u>** – mae carafanau yn dal i fod yno. **<u>Angen hysbysu Adran Gorfodaeth/Cynllunio.</u>**

dd) **<u>Gor-yrru yn Chwilog ger Bro Sion Wyn</u>** – derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd, yn poeni fod cerbydau yn gwneud mwy na 30 yr awr rhwng siop y cigydd tuag at Ocean Heights, a'r lon o'r pentref tuag at Pandy. Gofyn am roi 'ramp' fel sydd yng ngweddill y pentref yno, neu drefnu i'r heddlu fynd yno hefo mesuryddion cyflymdra. **<u>Y Clerc am anfon ateb at yr aelod o'r cyhoedd, yn egluro bydd arwyddion 20 yr awr yn cael ei gosod ar gyrion y pentref ganol fis Medi, gan obeithio bydd hynny'n gwella'r sefyllfa. Caiff hyn hefyd ei drafod yn ystod y cyfarfod safle 10.07.2023.</u>**

e) **<u>Arwyddion answyddogol (Saesneg)</u>** sydd yng ngwaelod y pentref yn gofyn i draffig arafu – gofyn wrth yr Adran Priffyrdd ei symud oddi yno.

13. **<u>Pencaenewydd/Sardis</u>**

**<u>Sbwriel ar ochr ffyrdd</u>** - Clerc wedi gofyn am roi arwyddion 'dim ysbwriel' a biniau yn y gymuned, ond heb dderbyn ymateb eto.

14. **<u>Llangybi</u>**

a) **<u>Llwybrau cyhoeddus o gwmpas Garn Bentyrch –</u>** cais i ofyn wrth Cyngor Gwynedd drwsio'r camfeydd rhwng Fferm Fron Oleu, Pencaenewydd i Ffynnon Cybi. Y llwybrau yn rhan o Rwydwaith Llwybrau Treftadaeth Glennydd Llŷn. Clerc heb dderbyn ymateb, ond derbyniwyd gwybodaeth ar noson y cyfarfod fod bwriad gan yr Adran Llwybrau i gael gwared ohonynt.

b) **<u>Cae Chwarae</u>** – yn dilyn derbyn adroddiad gan 'Fields in Trust' llynedd, a derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd, mae'r matiau du sydd yno angen sylw eto ac yn colli ei lliw ar esgidiau plant. Derbyniwyd pris gan G.L. Jones Playgrounds Ltd am £21,210.00 (cynnwys £3,535.00 o TAW), am godi'r hen deils ac ailwynebu'r 3 darn hefo 'wet-pour' du.

Fe wnaeth y Clerc holi tybed a oedd unrhyw fath o 'sealant' ar gael yn hytrach na gosod llawr newydd oherwydd y gost a dywedwyd mai yr unig ffordd i ddatrus y broblem yn iawn fyddai i godi y teils a gosod llawr 'wet-pour' yn ei lle. Roeddent yn dweud yn y gorffennol ei bod wedi llenwi y bylchau rhwng y teils gyda 'wet-pour a sealant', ond mewn dim mae symudiad y teils yn achosi i'r bylchau ddod yn ol. Roeddent hefyd wedi ceisio codi'r teils, ei glanhau nhw, gadael iddynt sychu, a'i ailgludo nhw. Mae hyn yn proses hir a chostus a ddim llwyddianus pan mae eitemau yng nghanol y rwber e.e. cosau uned ddringo.

**<u>Fe wnaeth y Clerc drefnu i gyfarfod Gwyn Williams Archwiliwr Meysydd Chwarae, Cyngor Gwynedd yn y cae chwarae ar 13.06.2023.</u>**

Dywedodd fod ganddo gyswllt contractwr sydd yn atgyweirio lloriau matiau yn dibynnu ar ei cyflwr, ond ni fyddai gwarant ar y gwaith. Dywedodd nad oedd y matiau mewn cyflwr rhy ddrwg, "mae nhw yn dda i gymharu a llawer o feysydd eraill", ond fod rhai ohonynt yn rhydd, a bod ochrau pren o'i amgylch fyddai angen ei adnewyddu. "Mae concrid o dan y matiau a mae nhw yn codi yn rhwydd. Mae y matiau yno ers blynyddoedd a mae batin coed wedi bod ar y ffin ond llawer ohono wedi pydru a diflannu. Dwi meddwl y buasai cario pridd i ymylon y matiau yn gweithio yma a wedyn ei hadu".

Dywedodd hefyd fod angen peintio rhai o'r offer, fel y cylchdro, a rhoi rhywbeth fel WD40 arnynt o dro i dro i'w cadw rhag rhydu.

Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri, ac yn disgwyl ymateb ganddi. **<u>Penderfynwyd aros tan fis Medi i weld beth fyddai'r ymateb gan y Loteri.</u>**

c) **<u>Llwybr cyhoeddus o'r ffordd fawr</u>**

Angen torri drain duon a mieri sydd ar y llwybr cyhoeddus sydd newydd gael ei ffensio i lawr o'r ffordd fawr yn Llangybi (ger Lleifior – mae plot o dir ar werth gerllaw), am Pont y Merched. **<u>Dal heb dderbyn ymateb</u>**.

ch) **<u>Groeslon Tý Newydd, Llangybi</u>** – cais yn gofyn am arwydd 'Stop' wrth ddod o Llangybi yn hytrach na 'Give Way'. **<u>Clerc i holi.</u>**

15. **<u>Glanhau 9 lloches bws</u>** – angen cytundeb newydd o Ebrill 2023 ymlaen – gwnaed un am 2 flynedd yn flaenorol tan 31.03.2023. **<u>Derbyniwyd pris gan Spick N Span, Pwllheli a Criccieth Cleaning, ac fe benderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning tan Ebrill 2025, sef ei bod yn ei glanhau bob tri mis.</u>**

16. **<u>Materion Ariannol</u>**

<u>Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.</u>

Fe wnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol a rhagolwg o'r gyllideb hyd at 30.06.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Fe wnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd ar y noson, i'w llofnodi a'i awdurodi cyn ei talu. **<u>Derbyn</u>**.

17. **Cais am arian i harddu'r pentrefi/talu am baent** – wedi derbyn cyngor gan Un Llais Cymru, a dywedwyd y gellir ystyried talu o dan Adran 137. **Penderfynu gwrthod oherwydd fod y Cyngor eisioes wedi prynu baneri a bynting.**

18. **Archwiliad mewnol** – derbyniwyd canlyniad gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd ar 21.06.2023, yn cadarnhau "**gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-2023 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd**". Byddant yn cael ei hanfon at yr Archwilwyr Allanol rwan, ac mae 'Hysbysiad archwilio ar gyfer hawliau etholwyr' wedi cael ei roi ar y wefan. **Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.**

19. **Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu biliau (os bydd angen) yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2023, ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd.**

20. **Ceisiadau cynllunio a ddaw yn ystod Gorffennaf ac Awst 2023** – angen caniatâd i'r Clerc roi sylwadau arnynt ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is Gadeirydd. Hefyd os bydd angen, gellir cynnal cyfarfod byr i'w trafod yn rhithiol.

21. **Cyflog a chostau y Clerc mis Gorffennaf 2023** – rhoddwyd caniatâd i'w dalu ar ol 03.08.2023, oherwydd na fydd cyfarfod yn ystod mis Awst.

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Y Ffynnon<br>(M1173) | Hysbyseb gwaith barbio ar y llwybrau, mis Ebrill 2023 | **30.00** | **30.00** | **30.00** |

23. Cyflog mis Mehefin 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2023<br>35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 =<br>Llai treth £89.20<br>= **£356.35** | **356.35** | **356.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2023 | 446.00 x 20% =<br>**£89.20** | **89.20** | **89.20** |
| Costau swyddfa'r Clerc<br>Mehefin 2023 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

| Enw/Rheswm | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2023<br>35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 =<br>Llai treth £89.20<br>= **£356.35** | **356.35** | **356.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2023 | 446.00 x 20% = **£89.20** | **89.20** | **89.20** |
| Costau swyddfa'r Clerc Gorffennaf 2023 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr – gyda chaniatâd y Cadeirydd**

24. **Amgueddfa Lloyd George** – ymholiad gan bentrefwyr Llanystumdwy tybed a fyddai'r Amgeuddfa wedi agor cyn yr Eisteddfod. Derbyniodd y Clerc gadarnhad gan Megan Corcoran, Swyddog Datblygu Amgeuddfeydd Cyngor Gwynedd, fod llifogydd wedi bod yno cyn Nadolig 2022 pan wnaeth peipen ddwr fewnol ollwng a chreu difrod i'r nenfwd a sawl ystafell, felly bu'n rhaid iddynt symud y ceiriau oddi yno i'r lle sychu'r iawn, a gwneud gwaith peintio ac adfer. Eglurwyd y byddent yn trefnu i agor darn o'r amgueddfa, Highgate, symud y sgip a chlirio o amgylch y tu allan i'r adeilad cyn yr Eisteddfod. **Derbyn**.

25. **Rhybudd peidio parcio yn Chwilog rhwng 04.08.23 hyd at 11 diwrnod, dros gyfnod yr Esteddfod**. Roedd y Cynghorydd Rhys Tudur wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi os oedd ymdrech wedi ei wneud i gynnig lle parcio arall ar gyfer y ceir sydd yn cael ei gorfodi barcio rhywle arall.

26. **Lloches bws Afonwen** – sedd wedi malu – **y Clerc wedi holi am bris i'w drwsio ar frys, gan Arwel Owen, Gilfach, Chwilog, cytunwyd i ofyn wrtho am wneud y gwaith.**

27.

| Enw | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd (007950B0080783H) | Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy | **2000.00** | | **2000.00** | **2000.00** |
| Criccieth Cleaning (3406) | Glanhau 9 lloches bws Ebrill-Mehefin 2023 | **£182.50** | **36.50** | **219.00** | **219.00** |

Penderfynwyd mai ar y nos Iau **07.09.2023** fydd y cyfarfod nesaf, yn Neuadd Llanystumdwy ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**